

‘Crynodeb o’r Argymhellion’

1. Mae’r Comisiwn yn gwahodd y pum Eglwys Gyfamodol i feddwl amdanynt eu hunain fel yr Eglwys yn Uno yng Nghymru.

2. Mae’r Comisiwn yn argymhell:

□ y bydd gan yr Eglwys yn Uno naw awdurdodaeth – y chwe esgobaeth Anglicanaidd bresennol ynghyd ag awdurdodaeth Fethodistaidd, awdurdodaeth Bresbyteraidd ac awdurdodaeth Ddiwygiedig Unedig/Fedyddiedig Gyfamodol, a wahoddir i ethol esgob bob un;

□ llunio disgrifiad o swyddogaeth yr esgob y bydd pob un o’r pum Eglwys Gyfamodol yn gytûn arno;

□ cysegru’r esgob i’r hen olyniaeth esgobol, hynny yw, ei ordeinio trwy arddodiad dwylo gan o leiaf dri esgob sydd eu hunain yn rhan o’r hen olyniaeth esgobol;

□ mai’r esgob fydd yn ordeinio pawb sydd i fod yn weinidog oddi mewn i’w awdurdodaeth;

□ y bydd yr esgob yn esgob yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru ac y bydd yn rhannu colegoldeb a chyflawn gydgyfnewid â holl esgobion eraill yr Eglwys honno;

□ y bydd esgobion y naw awdurdodaeth yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru yn ymgynghori â’i gilydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn;

□ bod yr holl weinidogion presennol yn cytuno i dderbyn arddodiad dwylo gan o leiaf un esgob Anglicanaidd ac o leiaf un esgob yn cynrychioli’r traddodiadau eraill yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru. Ystyrid hyn nid yn ordeinio esgobol ond yn gam ymlaen i weinidogaeth gyfamodol lawn.

3. Yn dilyn derbyn y gwahoddiad a amlinellir yn 1. uchod, mae’r Comisiwn yn argymhell:

□ y bydd pob awdurdodaeth sy’n aelod yn parhau, am y tro, i weithredu ei ffurfwodraeth eglwysig bresennol;

□ cynnal Cydgynulliad yr Eglwys yn Uno yng Nghymru yn flynyddol; a

□ gofyn i arweinwyr, cyfreithwyr a gweinyddwyr yn cynrychioli’r pum Eglwys sy’n aelodau lunio, cyn pen cyfnod o bum mlynedd, Gynllun a Chyfansoddiad i’r Eglwys yn Uno wedi’u seilio ar yr argymhellion yn Adran 5 Adroddiad y Gweithgor ar Lywodraeth Eglwysig.

.....

Rhai sylwadau ychwanegol :

1. dylid darllen y ddogfen ochr yn ochr â’r ddau bapur arall gan y Commisiwn sef yr un ar Lywodraeth Eglwysig ac hefyd yr un ar Arolygiaeth Fugeiliol;
2. hoffem dynnu sylw at y cymal olaf yn rhif 2.o’r ddogfen h.y na ddylid ystyried ‘derbyn arddodiad dwylo’ fel ordeinio esgobol, and fel cam ymlaen i weinidogaeth gyfamodol lawn ;
3. mae’n fwriad fod pob awdurdodaeth yn ethol esgob, gan gynnwys ni y Presbyteriaid ;
3. gan fod yr Eglwys yng Nghymru yn gynulliad o chwe eglwys ar wahân, byddai pob esgobaeth yn ethol 20 aelod i’r Cydgynulliad a’r tair awdurdodaeth arall yn ethol 40 aelodau yr un, sef yr awdurdodaeth Fethodistaidd, awdurdodaeth Bresbyteraidd, ac yna yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig â’r Bedyddwyr Cyfamodol yn awdurdodaeth arall.

Yn ei Blog, mae Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn pwysleisio fod hwn yn gyfle newydd i symud ymlaen gyda’n gilydd, gan geisio anrhydeddu amrywiaeth y gwahanol draddodiadau, a bydd rhaid i’r drafodaeth ymwneud â’n parodrwydd i berthyn i Eglwys y dyfodol. Aiff ymlaen “Yn y bôn, ystyr ‘esgobaeth’ yw gofal bugeiliol am weinidogaeth, staff ac eglwysi – y math o ofal y mae llawer o bobl yn ei weld yn brin yn ein Presbyteriaeth gyfoes. Beth am ofyn sut un fyddi esgob Presbyteraidd a beth fyddai manteision hynny ar gyfer ein heglwys ni heddiw ?.”